

1. Dylai menyw Fwslimaidd dda, o'i rhan hi, fod yn ddibynadwy ac yn garedig bob amser. Dylai hi ymdrechu i fod yn siriol ac yn galonogol tuag at ei gŵr a'i theulu, a dylai hi gadw eu cartref yn rhydd o unrhyw beth niweidiol (mae haram yn cynnwys pob agwedd ar niwed, gan gynnwys ymddygiad gwael, camdriniaeth a bwydydd gwaharddedig). Beth bynnag yw ei sgiliau neu ei deallusrwydd, mae disgwyl iddi dderbyn ei gŵr fel penteulu – felly, rhaid iddi ofalu ei bod hi'n priodi dyn y mae hi'n gallu ei barchu, ac y mae hi'n gallu gweithredu ei ddymuniaidau gyda chydwybod glir. Ond, pan fydd dyn yn disgwyl i'w wraig wneud unrhyw beth sy'n groes i ewyllys Duw – hynny yw, unrhyw weithred gas, hunanol, anonest neu greulon – mae ganddi hawl i'w wrthod. Nid ei meistr hi yw ei gŵr; un Meistr yn unig sydd gan fenyw Fwslimaidd, sef Duw. Os nad yw ei gŵr yn cynrychioli ewyllys Duw yn y cartref, mae'r cytundeb priodasol wedi'i dorri. Sut dylai rhywun ddehongli'r adnod yn y Qur'an sy'n caniatáu i ddyn gosbi ei wraig yn gorfforol? Mae amodau pwysig: gall wneud hynny dim ond os yw ei chasineb yn dinistrio'r briodas – ond wedyn dim ond ar ôl iddo ddisbyddu pob ymgais i gyfathrebu'n eiriol a cheisio cysgu mewn gwely ar wahân. Ond, ni tharodd y Proffwyd fenyw, plentyn neu hen berson erioed, ac roedd yn bendant mai prin y gallai unrhyw un a oedd yn gwneud hynny ystyried ei hun fel y Mwslim gorau. At hynny, dywedodd hefyd na ddylai dyn fyth daro "un o lawforynion Duw". Na chwaith, rhaid dweud, ddylai gwagedd ddim taro eu gwŷr neu eu dwrdio'n ddiedifar. Yn olaf, mae mater rhoi tystiolaeth. Er nad yw'r Qur'an yn dweud unrhyw beth penodol, mae ffynonellau Islamaidd eraill yn awgrymu nad yw tystiolaeth menyw mewn llys ond yn werth hanner tystiolaeth dyn. Fodd bynnag, dylai'r rheoliad hwn gael ei ddefnyddio'n unig mewn amgylchiadau lle mae menyw'n annysgedig ac wedi byw bywyd cyfyngedig iawn: bydd menyw sydd â'r un cymwysterau â dyn yr un mor bwysig ag ef fel tyst.
(Cyfieithiad o addasiad *Islam, Culture and Women* gan Ruqaiyyah Waris Maqsood)
2. Frodyr a chwirydd, mae'n bryd deffro i realiti. Er ein bod ni'n aml yn hoffi ymffrostio am ba mor fawr yw ein Ummah, y ffaith yw ein bod yn colli mwy o galonnau a meddyliau bob dydd, i raddau helaeth oherwydd ein bod ni'n dawel am gam-drin hawliau dynol, yn enwedig y rhai sydd wedi'u cyfeirio at fenywod. Bydd y bobl hyn yn parhau i droi at yr athrawiaethau seciwlar sy'n cael eu hyrwyddo gan y rhai nad ydyn nhw'n cymryd amser i fynegi barn ar eu rhan: y ffeministiaid, y sosialwyr, a'r seciwlarwyr. Gwawdiwyd y Proffwyd Muhammad, (sallallahu' alaihi wa salaam), ac ymosodwyd arno oherwydd ei safiad cryf a dewr ar statws menywod. Daeth â neges a oedd yn dyrchafu menywod ac a oedd yn rhoi urddas iddyn nhw. Bedair canrif ar ddeg yn ddiweddarach, rydyn ni wedi mynd yn ôl i lawr i bwll tywyll Jahiliya, ac mae menywod Mwslimaidd o gwmpas y byd yn gweld eu bod wedi'u taflu i'r un gaethwasiaeth ag y cafodd y Proffwyd, sallallahu' alaihi wa salaam, ei anfon i'w gwaredu nhw ohono. Dydych chi ddim yn "ffeminist radical" os ydych chi'n lladd ar lofruddiaethau anrhydedd ac yn gwirfoddoli dros ymgyrchoedd heddychlon i addysgu a newid cyfreithiau. Dydy codi eich llais yn erbyn Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ddim yn golygu eich bod eisiau "tanseilio Islam". I'r gwrthwyneb, mae gweithio yn erbyn yr anghyfiawnderau hyn yn ffordd Allah yn dangos dyhead i dyrchafu Islam a'r bobl Fwslimaidd. Pan benderfynodd y Taliban wrthod rhoi addysg i unrhyw ferch dros oed arbennig, y Mwslimiaid ceidwadol, y rhai sy'n honni eu bod yn dilyn y "Qur'an a'r Sunnah" a ddylai fod wedi codi eu llais uchaf yn erbyn hyn. Po hiraf rydyn ni'n

aros yn dawel, mwyaf y bydd pobl, yn Fwslimiaid ac yn rhai nad ydyn nhw'n Fwslimiaid, yn dechrau credu bod "Shar'ia" yn cyfateb i ormesu menywod. Mae angen i ni roi stop ar bobl sy'n cam-drin crefydd Duw a'i negesydd, Muhammad, sallallahu' alaihi wa salaam. Mae angen i ni wrthwynebu'r rhai a fyddai'n greulon wrth fenywod yn enw'r Qur'an a'r Sunnah. Mae angen i ni fod yn eiddgeddus am ein crefydd, fel bod y rhai a fyddai'n ei cham-drin a'i chamddefnyddio'n sylweddoli na fyddan nhw'n llwyddo ac yn symud ymlaen o dan ein gwyladwriaeth ni.

(Cyfieithiad o addasiad *Women, Shari'a, and Oppression - Where are the Voices of Conservative Muslims?* gan Saraji Umm Zaid)

3. Dydw i ddim yn deall pam, yn y Gorllewin, mae menywod Mwslimaidd yn cael eu rhoi gyda'i gilydd yn un grŵp mawr ac yn cael eu gweld fel clonau homogenaidd o'i gilydd, tra mai'n anaml mae menywod Cristnogol neu Iddewig byth yn cael eu stereoteipio fel hyn. Dydy llawer o bobl ddim yn sylweddoli, i raddau helaeth oherwydd dehongliadau rhagfarnllyd gan y cyfryngau, fod amrywiaeth fawr o fenywod Mwslimaidd o gwmpas y byd, o ardaloedd fel y Dwyrain Canol, De Asia, De-ddwyrain Asia, Iwgoslafia, Gogledd Affrica, a rhannau deheuol yr hen Undeb Sofietaidd, yn union fel mae menywod Cristnogol ac Iddewig mewn gwledydd amrywiol. Er enghraifft, mae'n debygol na fyddai rhywun yn dosbarthu menyw o México gyda menyw o Ffrainc, er efallai fod y ddwy'n Babyddion Rhufeinig a bod ganddyn nhw'r un credoau. Yn yr un ffordd, mae menywod Mwslimaidd o America yn wahanol i Fwslimiaid Pakistan, sy'n wahanol i Fwslimiaid Saudi Arabia. Yn y tair gwlad hyn, mae gan fenywod hawliau a breintiau gwahanol oherwydd y llywodraeth a'r arferion yn yr ardal. Er enghraifft, mae gwahaniaethu yn erbyn llawer o fenywod Mwslimaidd America oherwydd eu bod nhw'n gorchuddio eu pennau; mae gan fenywod Pacistanaidd hawliau gwleidyddol ond maen nhw'n aml yn cael eu hecsbloetio gan ddynion; does gan fenywod Saudi Arabia ddim rôl gyhoeddus, eto maen nhw'n cael eu "hamddiffyn" gan ddynion Saudi Arabia. Mae'n debygol fod y stereoteipiau negyddol o fenywod Mwslimaidd yn codi o'r amrywiaeth yn y ffordd y mae menywod yn cael eu trin. Mae cyfryngau'r Gorllewin, am ryw reswm, yn bachu ar ychydig o enghreifftiau o ymddygiad anghyfiawn yn y byd Islamaidd, yn dynodi Islam fel crefydd annatblygedig a "ffwndamentalalaidd", yn enwedig yn y ffordd y mae'n trin menywod, ac yn anwybyddu mai hi oedd y grefydd gyntaf i roi hawliau cyfartal i fenywod. Tra oedd menywod Cristnogol ac Iddewig yn dal i gael eu hystyried yn israddol, yn rhai a ddechreuodd bechod, ac yn eiddo i'w gwŷr, roedd menywod Mwslimaidd yn cael rhannu etifeddiaeth, yn cael dewis neu wrthod darpar wŷr, ac yn cael eu hystyried yn gydradd â dynion yng ngolwg Duw. Ond, drwy gydol amser, oherwydd arferion sy'n newid yn araf, a thwf gwladwriaethau cenedlaethol patriarchaidd, lle roedd dynion yn drechol, dechreuodd llywodraethau Mwslimaidd roi cyfyngiadau ar fenywod nad oedd ganddyn nhw unrhyw sail yn y Qur'an, y llyfr sanctaidd Islamaidd; neu'r hadith, dysgeidiaeth Y Proffwyd Muhammad. Ar y llaw arall, yn raddol mae menywod Cristnogol ac Iddewig yn y Gorllewin wedi cael hawliau nad oes galw amdany'n nhw yn y traddodiad beiblaidd.

(Cyfieithiad o addasiad *Shattering Illusions - Western Conceptions of Muslim Women* gan Saimah Ashraf)

ENGHRAIFFT O GRYNODEB TERFYNOL

Mae Maqsood yn gweld bod angen dehongli safbwyntiau Islamaidd am fenywod. Mae hi'n dadlau y dylai menyw Fwslimaidd dda, o'i rhan ei hun, fod yn ddibynadwy ac yn garedig bob amser, a bod disgwyl iddi dderbyn ei gŵr fel penteulu. Ond, pan fydd dyn yn disgwyl i'w wraig wneud unrhyw beth sy'n groes i ewyllys Duw mae ganddi hawl i'w wrthod.

Mae llawer yn dyfynnu'r adnod yn y Qu'ran sy'n caniatáu i ddyn gosbi ei wraig yn gorfforol. Mae hon yn cael ei chamddechongli ac mae amodau pwysig gan gynnwys y ffeithiau na tharodd y Proffwyd fenyw, plentyn neu hen berson erioed. O ran mater rhoi tystiolaeth mewn amgylchiadau lle mae menyw'n annysgedig ac wedi byw bywyd cyfyngedig iawn y mae'n cael ei ddefnyddio: mae menyw sydd â'r un cymwysterau â dyn yr un mor bwysig ag ef fel tyst.

Ond, mae Zaid yn dweud bod angen i ni ddefro i'r realiti hynny yw ein bod yn cadw'n dawel am gam-drin hawliau dynol, yn enwedig y rhai sydd wedi'u cyfeirio at fenywod. Gwawdiwyd y Proffwyd Mohammad ac ymosodwyd arno oherwydd ei safiad cryf a dewr ar statws menywod. Daeth â neges a oedd yn dyrchafu menywod ac yn rhoi urddas iddyn nhw.

Dydych chi ddim yn "ffeminist radical" os ydych chi'n lladd ar lofruddiaethau anrhydedd ac yn gwirfoddoli dros ymgyrchoedd heddychlon i addysgu a newid cyfreithiau. Dydy codi eich llais yn erbyn Anffurfio Organau Benywod ddim yn golygu eich bod chi eisiau "tanseilio Islam." Y cyfan yw hyn yw dyhead i ddyrchafu Islam.

Po hiraf rydyn ni'n aros yn dawel, mwyaf y bydd pobl, yn Fwslimiaid ac yn rhai nad ydyn nhw'n Fwslimiaid, yn dechrau credu bod "Shar'ia" yn cyfateb i ormesu menywod. Mae angen i ni wrthwynebu'r rhai a fyddai'n greulon i fenywod yn enw'r Qur'an a'r Sunnah.

Mae Ashraf yn gofyn i ni pam, yn y Gorllewin, mae menywod Mwslimaidd yn cael eu rhoi gyda'i gilydd yn un grŵp mawr tra ei bod hi'n anaml y mae menywod Cristnogol neu Iddewig byth yn cael eu stereoteipio fel hyn. Mae amrywiaeth fawr o fenywod Mwslimaidd o gwmpas y byd. Mewn gwledydd gwahanol, mae gan fenywod hawliau a breintiau gwahanol oherwydd y llywodraeth a'r arferion yn yr ardal. Mae'n debygol fod y stereoteipiau negyddol o fenywod Mwslimaidd yn codi o'r amrywiaeth yn y ffordd y mae menywod yn cael eu trin. Mae cyfryngau'r Gorllewin, am ryw reswm, wedi bachu ar ychydig enghreifftiau o ymddygiad anghyfiawn yn y byd Islamaidd, ond tra oedd menywod Cristnogol ac Iddewig yn dal i gael eu hystyried yn israddol, roedd menywod Mwslimaidd yn cael rhannu etifeddiaeth, yn cael dewis neu wrthod darpar wŷr, ac yn cael eu hystyried yn gydradd â dynion yng ngolwg Duw.

Fodd bynnag, twf gwladwriaethau cenedlaethol patriarchaidd, lle roedd dynion yn drechol, a wnaeth i lywodraethau Mwslimaidd ddechrau rhoi cyfyngiadau ar fenywod nad oedd ganddyn nhw unrhyw sail yn y Qur'an, y llyfr sanctaidd Islamaidd; neu'r hadith, dysgeidiaeth Y Proffwyd Muhammad.

Dyma dri adnodd arall eto - y tro hwn mae mwy o ffocws penodol ar fater cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn Islam ac mae'n ymwneud â rôl a statws menywod a ffeministiaeth mewn Islam (Thema 3B).

1. Mae'r Qur'an yn rhoi tystiolaeth eglur fod Duw'n gweld bod menyw'n hollol gydradd â dyn o ran ei hawliau a'i chyfrifoldebau. Mae'r Qur'an yn dweud: '... Felly y derbyniodd eu Harglwydd eu gweddïau, (gan ddweud): Fyddaf i ddim yn dioddef i waith un ohonoch chi gael ei golli, boed wryw neu fenyw. Rydych chi'n deillio'r naill o'r llall ...' (Qur'an 3: 195). Yn ôl y Qur'an, dydy'r fenyw ddim yn cael ei beio am gamsyniad cyntaf Adda. Roedd y ddau gyda'i gilydd yn anghywir yn anufuddhau i Dduw, edifarhaodd y ddau, a maddeuwyd i'r ddau. (Qur'an 2:36, 7:20 - 24). Mewn un adnod mewn gwirionedd (20:121), cafodd Adda'n benodol ei feio.

O ran rheidrwydd crefyddol, fel Gweddïau Beunyddiol, Ymprydio, Rhoi i'r Tlawd, a Phererindod, dydy'r fenyw ddim yn wahanol i'r dyn. Yn wir mewn rhai achosion, mae gan y fenyw rai manteision dros y dyn. Er enghraifft, mae'r fenyw'n cael ei hesgusodi rhag y gweddïau beunyddiol a rhag ymprydio yn ystod ei mislif ac am ddeugain niwrnod ar ôl geni plentyn. Hefyd mae'n cael ei hesgusodi rhag ymprydio yn ystod ei beichiogrwydd a phan fydd hi'n meithrin ei baban os oes unrhyw fygythiad i'w hiechyd hi neu i iechyd ei baban. Os yw'r ymprydio a gollir yn orfodol (yn ystod mis Ramadan), gall hi wneud iawn am y diwrnodau a gollwyd bryd bynnag y gall hi. Does dim rhaid iddi wneud iawn am y gweddïau a gollwyd am unrhyw un o'r rhesymau uchod. Er bod menywod yn gallu mynd i'r mosg yn ystod diwrnodau'r proffwyd ac wedyn mynychu ar ddydd Gwener, mae gweddïau cynulleidfaol yn ddewisol iddyn nhw tra maen nhw'n orfodol i ddydd Gwener).

Mae hyn yn amlwg yn nodwedd dyner ar y ddysgeidiaeth Islamaidd oherwydd mae'n ystyried y ffaith y gall menyw fod yn meithrin ei baban neu'n gofalu amdano, ac felly ei bod hi'n methu mynd allan i'r mosg adeg y gweddïau. Hefyd maen nhw'n ystyried y newidiadau ffisiolegol a seicolegol sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau benywaidd naturiol.

(Cyfieithiad o addasiad *The Status of Women* gan Islam by Jamal Badawi)

2. Mae'r Qur'an yn cael ei gyfeirio at bob Mwslim, ac ar y cyfan nid yw'n gwahaniaethu rhwng gwryw a benyw. Mae'n dweud bod dyn a menyw, "wedi'u creu o un enaid", a'u bod yn gydradd yn foesol yng ngolwg Duw. Mae gan fenywod hawl i ysgaru, i etifeddu eiddo, i redeg busnes ac i gael mynediad at wybodaeth. Gan fod yr un ymrwymadau a rheolau ymddygiad yn berthnasol i fenywod ac i dynion, mae'r gwahaniaethau'n dod i'r amlwg gryfaf pan fydd hi'n fater o feichiogrwydd, cael a magu plant, y mislif ac, i ryw raddau, dillad. Mae rhai o'r gorchmynion yn ddieithr i'r traddodiad Gorllewinol. Efallai bod gofynion purdeb defodol fel petaen nhw'n cyfyngu ar fynediad menyw i fywyd crefyddol, ond maen nhw'n cael eu gweld fel consesiynau. Yn ystod y mislif neu'r gwaedu ar ôl genedigaeth, dydy hi ddim yn cael gweddïo'r salah defodol neu gyffwrdd â'r Qur'an a does dim rhaid iddi ymprydio; does dim rhaid iddi ymprydio chwaith pan fydd hi'n feichiog neu'n meithrin. Mae'r ffordd y mae menywod Mwslimaidd yn gwisgo fêl yn fater mwy cymhleth. Yn sicr, mae'r Qur'an yn dweud bod rhaid iddyn nhw ymddwyn a gwisgo'n syml – ond mae'r cyfyngiadau hyn yr un mor berthnasol i ddyddion. Un adnod yn unig sy'n cyfeirio at fenywod yn gwisgo fêl, mae'n dweud y dylai gwragedd y Proffwyd fod y tu ôl i hijab pan fydd ei westeion gwrywaidd yn sgwrsio â nhw. (Cyfieithiad o addasiad *Islam, Culture and Women* gan Ruqaiyyah Waris Maqsood)

3. Mewn lleoedd fel Medina, lle roedd priodi'n digwydd drwy brynu, roedd hi'n llawer gwaeth ar fenywod. Doedd hi ddim yn cael etifeddu oherwydd ei bod hi ei hun yn rhan o ystâd ei gŵr i'w hetifeddu. Mewn gwirionedd, pan orchmynnodd Islam fod hawl gan chwirydd a merched i ran o'r etifeddiaeth, protestiodd dynion Medina yn erbyn y rheol. Roedd gan Mecca reolau mwy datblygedig o ran etifeddu, efallai oherwydd i ddiwylliannau uwch ddylanwadu arni drwy ei chysylltiadau masnachol â Phalesteina a Phersia, a gan fod rhai pobl o Mecca wedi byw mewn dinasoedd Rhufeinig fel Gaza. Yn Mecca roedd Khadija, er enghraifft, yn byw bywyd hollol annibynnol fel gwraig weddw gyfoethog a oedd yn ymwneud â masnach garafanau broffidiol. Roedd ei hystâd yn cynnwys eiddo go iawn oherwydd rhoddodd hi dŷ i Zainab, ei merch. Felly mae'n bosibl dod i'r casgliad fod menywod Mecca yn cael dal eiddo cyn Islam. Pan ddaeth Islam, symudodd y ffocws o'r llwyth i'r unigolyn, wedi'i gydbwysu â chysyniad cymuned a theulu. Cyflwynodd system lle roedd pawb yn gydradd, beth bynnag oedd ei ryw/rhyw, ei hil, ei oed/hoed neu ei gyfoeth/chyfoeth. O dan Islam, yr egwyddorion moesol a chrefyddol, nid cysylltiadau llwythol, oedd yn diffinio hawliau menywod. Roedd Islam yn cydnabod bod menywod yn fodau dynol rhydd gyda'u hawliau llawn eu hunain. Gyda rhyddid daw cyfrifoldebau ac ymrwymadau. Mae hyn wedi gwneud i rai ddadlau bod menywod wedi'u cyfyngu'n fwy ar ôl Islam o ran Jahiliyya. Mewn gwirionedd gall hyn fod yn wir mewn rhai llwythau nad oedden nhw'n gormesu menywod cymaint ag eraill. Ond, gwelodd Islam gyflwr pob menyw, pa bynnag lwyth yr oedd hi'n perthyn iddo. Adferodd urddas menywod a chodi ei statws, ar y cyfan, i fod yn gydradd â statws dynion. (Cyfieithiad o addasiad *Women in Pre-Islamic Arabia* gan Gynghrair y Menywod Mwslimaidd/The Muslim Women's League)